



Atodlen Ffioedd Goruchwyliaeth Addysgol 2025-26

Mae'r strwythur ffioedd a ddarperir isod yn berthnasol i bob gweithgaredd adolygu a chostau monitro blynyddol, i ddarparwyr sy'n newydd i'r cynllun a'r rhai sy'n cynnal eu statws.

Mae ffioedd yn berthnasol i'r flwyddyn academiaidd sy'n rhedeg o Awst i Orffennaf, bob blwyddyn. I ddarparwyr sydd eisoes wedi cofrestru ar gyfer Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (AGA), bydd anfonebau'n cael eu cyhoeddi ym mis Awst ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Dim ond am y flwyddyn y cynhelir adolygiad y mae ffioedd adolygu yn daladwy. Yn y blynyddoedd cyfamserol, mae'n ofynnol i ddarparwyr dalu ffi sy'n cwmpasu'r gweithgaredd monitro blynyddol neu gwblhau Adolygiad Rhannol, pa un bynnag sy'n briodol. Mae ffioedd hefyd yn cwmpasu ymateb QAA i ymholiadau, apeliadau, cwynion, pryderon a chyfathrebu â Swyddfa Gartref y DU.

Adolygir ffioedd yn flynyddol a gallant fod yn destun cynnydd. Ni ellir ad-dalu ffioedd.

Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol

Categori Adolygu	Maint y tîm adolygu	Nifer y dyddiau ymweld	Ffi adolygu
Craidd	3	1	£12,500
Llawn	3	3	£26,500

Mae AGA wedi'i rannu'n ddau gategori: Craidd a Llawn. Bydd darparwyr yn cael categori yn seiliedig ar y meini prawf a nodir yn [Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol: Canllawiau i Ddarparwyr](#). Mae'n ofynnol i bob darparwr sy'n newydd i AGA gael adolygiad yn eu blwyddyn gyntaf, gyda phob darparwr yn cael adolygiad bob pedair blynedd wedi hynny i gynnal eu statws.

Mae'r tabl uchod yn nodi maint safonol y tîm a hyd yr ymweliad adolygu ar gyfer pob categori. Gall maint y tîm a nifer y dyddiau ar y safle amrywio yn ôl maint y darparwr a math y ddarpariaeth. Bydd y ffi yn cael ei chyfrifo ar sail unigol lle bydd amrywiad yn digwydd.

Er mwyn cydymffurfio â'r Safonau a'r Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal

Addysg Uwch Ewrop (ESG), mae QAA wedi sicrhau y bydd adolygydd myfyrwyr yn cael ei gynnwys fel rhan o'r tîm adolygu ar gyfer pob dull adolygu. Nid yw hyn yn berthnasol i weithgaredd monitro blynyddol.

Cynaliadwyedd, Rheolaeth a Llywodraethu Ariannol

Mae'n ofynnol i bob ymgeisydd newydd a'r rhai sy'n cael eu hadolygiad pedair blynedd gwblhau gwiriad Cynaliadwyedd, Rheolaeth a Llywodraethu Ariannol (FSMG).

Y ffi FSMG yw £4,350.

Gall QAA farnu bod rhai darparwyr Categori A angen gwiriadau ychwanegol rhwng gwiriadau llawn, naill ai'n flynyddol neu ar gais QAA. Os felly, cynhelir trafodaeth gyda'r darparwr ar yr amser priodol.

Cynnal goruchwyliaeth addysgol – Monitro blynyddol

Mae'r ffi monitro blynyddol yn cynnwys craffu ar y ffurflen flynyddol ac unrhyw ymweliad monitro dilynol os oes angen un.

Y ffi monitro blynyddol yw £4,900 am bob blwyddyn academiaidd.

Adolygiad Rhannol

Os bydd darparwr yn derbyn dyfarniad o'i Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol sy'n ei gwneud yn ofynnol i Adolygiad Rhannol ddigwydd yn y flwyddyn academiaidd ganlynol, mae'r gweithgaredd hwn yn disodli monitro blynyddol ar gyfer y flwyddyn honno.

Y ffi adolygiad rhannol yw £4,900 ar gyfer y flwyddyn academiaidd honno, er bod gan QAA yr hawl i gynyddu'r ffi hon os yw lefel y gwaith sydd ei angen i gynnal yr adolygiad rhannol yn ei gwneud yn angenrheidiol. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r darparwr os bydd yr angen yn codi.

Cyhoeddwyd - 06 Hydref 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025

Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786

www.qaa.ac.uk